# POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD 2022

## 1. RHAGAIR

Cyhoeddir y Polisi Iaith hwn yn unol â blaenoriaethau Cyngor Gwynedd a'r gofynion a osodir ar y Cyngor dan Safonau'r Gymraeg, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Diben y polisi yw nodi sut y bydd y Cyngor a'i weithwyr yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Bydd hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith.

Mae helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei nodi fel un o flaenoriaethau gwella Cyngor Gwynedd yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r flaenoriaeth honno yn ategu nod y Cynllun Llesiant i "gael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg".

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo drwy ei strategaeth hybu – *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd* - i gymryd camau rhagweithiol i hybu'r iaith a chynyddu cyfleoedd i bobl Gwynedd ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau.

## 2. <u>AMCANION CYFFREDINOL Y POLISI</u>

Drwy weithredu yn unol â'r polisi hwn, felly, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau:

1. Bod gweithlu cyfan y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2. Bod delwedd a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn un Cymreig a Chymraeg, ac yn adlewyrchu ei ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r enw 'Cyngor Gwynedd' wrth gyfeirio at ei hun lle bynnag y bo'n bosib.

3. Y bydd staff yn manteisio ar bob cyfle i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg defnyddwyr gwasanaethau.

4. Y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'u dewis personol, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod y dewis iaith hwnnw yn cael ei nodi a'i barchu bob amser.

5. Y bydd gwasanaethau neu weithgareddau sydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu cymunedau yn cael eu hyrwyddo yn briodol ac effeithiol.

6. Y rhoir cyfrifoldeb ar **holl** Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.

7. Bod pob corff allanol yn cael eu cymell i gyfathrebu gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog.

8. Bod disgwyl i unrhyw gyrff neu fusnesau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor wneud hynny yn unol â'r Safonau a osodir ar y Cyngor ei hun. Bydd disgwyliadau clir yn cael eu gosod mewn cytundebau gwasanaeth a threfniadau monitro priodol yn cael eu sefydlu a'u dilyn.

9. Bod staff y Cyngor yn sicrhau eu bod yn dilyn prosesau asesu effaith trylwyr, fydd yn ystyried effaith polisïau, penderfyniadau a chynlluniau'r Cyngor ar y Gymraeg a'i siaradwyr, gan gynnwys effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir a chyfleoedd i weld a chlywed y Gymraeg yn y spher gyhoeddus. Bydd disgwyl i bawb ddefnyddio'r fframwaith asesu effaith integredig sydd wedi ei datblygu ar gyfer cydraddoldeb, iaith ac anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn sicrhau bod holl gynlluniau'r Cyngor yn cyd-fynd gyda'r amcanion a nodir yn strategaeth iaith y Cyngor – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd – a'r uchelgais hir-dymor i weld nifer siaradwyr Cymraeg yn y sir yn cynyddu.

## 3. <u>Y POLISI – GWEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG YNG NGWAITH Y CYNGOR</u>

### <u>ADRAN 1. GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG</u>

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1,4,5,6, 7)

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Byddwn yn parchu rhyddid yr unigolyn/ cyhoedd i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu Saesneg.***

***Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gofnodi dewis iaith, ac i gyfathrebu yn unol â'r dewis hwnnw.***

***Byddwn yn annog unigolion a chyrff eraill i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu efo ni.***

1.1 Dylai aelodau staff y Cyngor ateb pob llythyr yn yr iaith y cafodd ei ysgrifennu yn wreiddiol, ac yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol, sef cydnabod yr ohebiaeth o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 15 diwrnod gwaith.

1.2 Os oes angen gohebu (dros e-bost neu lythyr) ar ôl siarad gyda rhywun wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, dylai unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig ddilyn y dewis iaith yn y sgwrs wreiddiol, neu yn yr iaith a ddewiswyd gan y defnyddiwr os ydyn nhw wedi dweud yn benodol yr hoffent gael gwybodaeth ysgrifenedig mewn iaith wahanol i'w dewis llafar.

1.3 Dylai unrhyw ohebiaeth dorfol gael ei anfon yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys unrhyw lythyr sydd yn cael ei anfon at fwy nag un person yn defnyddio'r un templed (nid oes rhaid iddynt gael eu hanfon ar yr un pryd) - fel ymatebion i geisiadau ar y system hunanwasanaeth.

1.4 Os bydd llythyrau yn cael eu hanfon o system gyfrifiadurol/hunanwasanaeth lle mae dewis iaith wedi ei nodi a lle mae'r wybodaeth wedi ei bersonoli mewn rhyw ffordd, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfeirnod achos, nid oes rhaid anfon yn ddwyieithog a gellir anfon yn newis iaith yr unigolyn.

1.5 Pan fydd aelod o staff yn cychwyn gohebiaeth efo unigolyn, cymdeithas neu gwmni ar ffurf llythyr neu e-bost, dylent ysgrifennu'r ohebiaeth honno yn ddwyieithog. Gallant ysgrifennu yn Gymraeg yn unig os ydynt yn gwybod i sicrwydd bod y derbynnydd yn gallu'r Gymraeg ac yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.

1.6 Dylid sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a anfonir, yn electronig neu yn unigol gan staff, yn defnyddio cyfeiriadau Cymraeg, gan gynnwys enwau strydoedd Cymraeg a'r ffurfiau ar enwau lleoedd sydd ar gofrestr enwau lleoedd y Cyngor.

1.7 Dylai aelodau staff y Cyngor bob amser ysgrifennu at gyrff cyhoeddus a chyrff sydd wedi eu datganoli yng Nghymru **yn y Gymraeg yn unig**.

1.8 Os bydd corff arall sydd hefyd yn atebol i'r Safonau Iaith (yn enwedig awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru) yn anfon gohebiaeth uniaith Saesneg, dylai aelodau staff y Cyngor ofyn am gopi Cymraeg o'r ohebiaeth cyn ymateb i'r corff yn Gymraeg. Os na dderbynnir gohebiaeth Gymraeg wedi gwneud cais amdano, dylid ymateb i'r

ohebiaeth yn Gymraeg a rhoi gwybod i'r Uned Iaith a Chraffu.

1.9 Dylai aelodau staff y Cyngor gynnwys datganiad ar unrhyw ohebiaeth yn nodi bod croeso i'r cyhoedd gyfathrebu efo nhw yn Gymraeg ac na fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

1.10 Dylid sicrhau cywirdeb unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon. Anogir holl staff y Cyngor i ddefnyddio rhyngwyneb Cymraeg Windows a CySill ac i ddefnyddio iaith glir a syml.

1.11 Bydd canllawiau a thempledi yn cael eu darparu ar y fewnrwyd, a hyfforddiant Gloywi Iaith ar gael i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio gyda gofynion y cymalau uchod.

## ADRAN 2. GWASANAETHAU FFÔN

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17,18, 20, 21, 22)

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Bydd y Cyngor yn sicrhau bod posib delio gydag unrhyw ymholiad yn llawn yn y Gymraeg wrth i'r cyhoedd gysylltu ar y ffôn.***

2.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod posib i unrhyw aelod o'r cyhoedd gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg wrth gysylltu gyda nhw dros y ffôn.

2.2 Bydd pob aelod o staff rheng flaen a phob system ateb electronig awtomatig – a hynny yn y Pencadlys, y swyddfeydd rhanbarth a mannau cyhoeddus eraill y Cyngor - yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn y Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg) ac mewn ffordd groesawgar.

2.3 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfarch yn y Gymraeg wrth ateb galwadau gan y cyhoedd.

2.4 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn galw ac eisiau delio efo'u ymholiad yn Gymraeg, ond nad yw'r swyddog sy'n ateb yr alwad yn gallu siarad Cymraeg yn ddigon rhugl i ymdrin â'r mater **yn llawn**, dylai'r swyddog egluro hynny wedi cyfarch y galwr, a chynnig trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff fydd yn gallu ymdrin â'r mater yn llawn yn newis iaith y galwr. Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg hyd eithaf ei (g)allu.

2.5 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r neges

Gymraeg i’w chlywed gyntaf.

2.6 Pan fydd aelod o staff yn ffonio aelod o’r cyhoedd, ac yn cysylltu am y tro cyntaf, bydd yn gwneud yn siŵr ei fod yn ymwybodol o ddewis iaith yr unigolyn, gan wneud cofnod o hynny os oes angen er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw alwadau ffôn gan y gwasanaeth yn y dyfodol hefyd yn cael eu gwneud yn Gymraeg.

**<u>ADRAN 3. CYFARFODYDD - YN CYNNWYS Y CYHOEDD A STAFF ALLANOL</u>**
(Safonau 23, 25. 27, 27A, 27CH, 28, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36)

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Y Gymraeg yw prif iaith weithredol y Cyngor. Bydd pob cyfarfod a drefnir gan staff y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.***

***Annogir mynychwyr i gyfarfodydd y Cyngor i gyfrannu yn Gymraeg, ond byddwn hefyd yn parchu ac yn hwyluso dewis iaith.***

***Bydd y Cyngor yn trefnu cyfieithu ar y pryd lle bo'r angen er mwyn gwneud yn siŵr bod <u>mynychwyr di-Gymraeg</u> yn gallu dilyn y cyfarfod a chymryd rhan yn llawn.***

***Yn unol â nod y Cyngor, ceisir sicrhau bod staff dwyieithog ar gael bob amser er mwyn cynnal cyfarfodydd yn unol â dewis iaith yr aelod o'r cyhoedd. Gan fod mwyafrif helaethaf staff y Cyngor yn ddwyieithog, ni ddylid bod mewn sefyllfa o orfod newid iaith cyfarfod gydag aelod o'r cyhoedd i'r Saesneg.***

3.1 Dylai swyddogion sicrhau bod unrhyw un a gaiff eu gwahodd i gyfarfod **mewnol** yn y Cyngor yn ymwybodol bod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid rhoi cyfle iddynt nodi a ydynt yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a dyletswydd swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael os oes angen er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn parhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfod sydd yn ymwneud â **llesiant** (h.y. unrhyw faterion personol), ac yn dymuno trafod y materion hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnal y cyfarfod yn unol â dewis iaith yr unigolyn.

3.3. Rhaid i swyddogion y Cyngor sicrhau bod unrhyw staff (o'r Cyngor ei hun neu unrhyw gorff/asiantaeth arall) sy'n bresennol mewn cyfarfodydd llesiant yn gallu'r Gymraeg, ac os nad ydynt, bod trefniadau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn amharu o gwbl ar y gallu i gynnal y cyfarfod hwnnw yn y Gymraeg os mai dyna ddymuniad yr unigolyn. **NI DDYLID** newid iaith y cyfarfod er lles swyddogion.

3.4 Y Gymraeg fydd prif iaith unrhyw gyfarfodydd **cyhoeddus** a gynhelir gan y Cyngor. Pan fydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod, gwrandawiadau neu ymchwiliad cyhoeddus, dylai swyddogion gyflwyno ac arwain y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.5 Mae gan y cyhoedd hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis, mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus sydd yn cael ei drefnu gan y Cyngor, a bydd gwasanaeth cyfieithu yn cael ei drefnu er mwyn sicrhau bod modd i rai nad ydynt yn deall a siarad Cymraeg allu deall a chyfrannu yn effeithiol tuag at y cyfarfod.

3.6 Bydd disgwyl i gadeiryddion neu swyddogion arweiniol unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus dynnu sylw at y ffaith bod cyfieithu ar y pryd ar gael ar gychwyn y cyfarfod, ac annog mynychwyr i ddefnyddio'r offer er mwyn hybu dewis iaith.

3.7 Disgwylir i bob dogfen sydd yn ymwneud â chyfarfod cyhoeddus gael ei greu a'i gyhoeddi yn ddwyieithog. Bydd hefyd angen sicrhau bod pob rhaglen, gwahoddiad neu hysbyseb ar gyfer y cyfarfod yn cynnwys datganiad sydd yn nodi mai Cymraeg fydd iaith y cyfarfod cyhoeddus ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r rhai sydd yn dymuno cyfrannu a dilyn y cyfarfod drwy gyfrwng y Saesneg.

3.8 Disgwylir i swyddogion y Cyngor gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau a drefnir gan awdurdodau neu sefydliadau cyhoeddus eraill, ac fe'u hanogir i sicrhau bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei gynnig gan y trefnwyr er mwyn eu galluogi i allu cyfrannu os bydd angen.

3.9 Bydd unrhyw weithgareddau neu hyfforddiant a gynhelir gan y Cyngor ar gyfer y cyhoedd yn cael ei gynnig yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. (Safon 84)

## ADRAN 4 - CYHOEDDIADAU A DEUNYDD YSGRIFENEDIG

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 38, 40, 48, 49, 50, 50A, 50B, 51, 52, 55, 56)

### EGWYDDORION CYFFREDINOL

***Y Gymraeg yw prif iaith weithredol y Cyngor, sydd yn golygu mai'r Gymraeg gaiff flaenoriaeth wrth ysgrifennu adroddiadau a dogfennau mewnol.***

***Bydd holl ddogfennau <u>cyhoeddus</u> y Cyngor - sy'n cynnwys adroddiadau, cynlluniau, posteri, ffurflenni a deunyddiau esboniadol, hysbysiadau i'r Wasg, hysbysiadau cyhoeddus a dogfennau ymgynghori - ar gael yn Gymraeg a Saesneg.***

***Bydd unrhyw ddogfennau swyddogol sydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar gael yn y ddwy iaith, gyda'r gallu i symud yn rhwydd o un fersiwn i'r llall.***

***Ni fydd y Cyngor yn cyhoeddi/rhannu dogfennau uniaith Saesneg, ar bapur nac ar wefan y Cyngor, oni bai bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael ar yr un pryd.***

***Gwneir pob ymdrech i greu dogfennau byr yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gweld y Gymraeg ar bob cyfle posib.***

***Bydd y Cyngor yn cyfeirio at ei hun yn ôl ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, mewn deunyddiau ysgrifenedig ac yn arddel enwau Cymraeg ar leoliadau a nodweddion yn eu holl gyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig cyhoeddus.***

4.1 Bydd swyddogion yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sydd wedi ei fwriadu ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifenedig wedi ei argraffu a deunydd a gaiff ei rannu yn electronig.

4.2 Bydd swyddogion yn sicrhau bod unrhyw ddogfen Saesneg sydd yn cael ei gyhoeddi/ryddhau yn cynnwys datganiad sydd yn nodi yn glir bod fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hefyd ar gael.

4.3 Bydd unrhyw daflenni sy'n cael eu hanfon i'r trigolion yn ddwyieithog ac yn cael eu rhoi mewn amlenni mewn modd sy'n sicrhau mai'r Gymraeg sydd i'w gweld gyntaf wrth agor.

4.4 Os bydd Swyddogion yn rhannu deunydd ysgrifenedig gan sefydliadau eraill (naill ai ar ffurf dogfennau, neu drwy gyfeirio at ffynonellau eraill fel gwefannau) disgwylir i'r swyddogion wneud pob ymdrech i sicrhau bod y deunydd hwnnw ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Os bydd dogfennau yn cael eu rhannu fel rhan o waith ymgynghori, ac nad yw'r sefydliad allanol yn gallu darparu copïau dwyieithog, rhaid gwneud trefniadau i'w cyfieithu yn fewnol cyn rhannu'r dogfennau yn gyhoeddus.

4.5 Dylai swyddogion sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn safonol ei ffurf a'i arddull, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran ffurf, maint, ansawdd ac eglurder. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw ddeunydd yn ddealladwy ac yn eglur i'r cyhoedd, ac yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir / Plain English.

4.6 Dylid rhoi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg mewn unrhyw ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus. Mae hynny yn golygu y bydd y testun Cymraeg yn cael ei osod naill ai uwchben neu ar y chwith i'r testun Saesneg.

4.7 Dylid ceisio dylunio unrhyw daflenni, pamffledi, a dogfennau fydd yn cael eu rhannu yn gyhoeddus fel fersiynau printiedig mewn ffordd fydd yn sicrhau bod y ddwy iaith yn ymddangos efo'i gilydd. Gall hyn fod yn destun dwyieithog ar yr un ddalen neu yn ddogfen gyda'r ddwy iaith wedi eu hargraffu gefn wrth gefn.

4.8 Pe byddai rhaid i'r Cyngor, am unrhyw reswm, (e.e. maint dogfen, cyhoeddi ar y wefan) gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, a bydd y fersiwn Saesneg yn nodi yn glir bod fersiwn Gymraeg ar gael er mwyn annog trigolion i fynd at y fersiwn Gymraeg.

4.9 Dylid sicrhau bod unrhyw ddogfennau sydd yn cael eu **hargraffu** fel fersiynau papur Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gael gyda'i gilydd ac mai'r fersiwn Gymraeg sydd yn cael ei gynnig gyntaf i'r cyhoedd.

4.10 Bydd unrhyw daflenni gwybodaeth neu bosteri a gaiff eu gosod mewn unrhyw fan

cyhoeddus sydd dan ofal y Cyngor yn ddwyieithog, gyda’r Gymraeg yn gyntaf, a’r Saesneg yn dilyn oddi tannodd.

4.11 Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw hysbysiadau neu bosteri gan gyrff a chwmnïau eraill fydd yn cael eu harddangos yn eiddo ac adeiladau’r Cyngor hefyd yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Ni chaniateir arddangos posteri uniaith Saesneg yn adeiladau’r Cyngor.

4.12 Bydd pob datganiad i'r wasg neu i'r cyfryngau gan y Cyngor yn ddwyieithog.

4.13 Bydd ymateb i ymholiadau gan y wasg neu'r cyfryngau yn cael ei anfon yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ddibynnol ar iaith y gohebydd perthnasol.

4.14 Bydd yr holl ddeunydd a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth, i farchnata, i hyrwyddo ac i ddenu buddsoddiad i'r ardal yn nodi a chydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

4.15 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog, gan gynnwys arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth a chynadleddau. Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi neu ymchwil yn gwbl ddwyieithog.

4.16 Caniateir yr eithriadau canlynol i’r cymalau uchod:

a) Dogfen sydd yn ymwneud yn benodol gyda gweithgarwch sydd â’i brif fwriad i hybu a hyrwyddo’r Gymraeg, a/neu sydd yn ymwneud â digwyddiad sydd yn cefnogi iaith a diwylliant yr ardal. Gall hyn gynnwys digwyddiadau megis gweithgareddau’r Urdd a’r Eisteddfod Genedlaethol neu weithgareddau gan bartneriaid hyrwyddo’r Gymraeg.
b) Datganiadau neu hysbysebion ar gyfer rhaglenni radio neu deledu ar sianeli Cymraeg eu hiaith.
c) Hysbysiadau yn y wasg Gymraeg, fydd yn ymddangos un uniaith Gymraeg.

4.17 Disgwylir i unrhyw ddogfennau neu ddatganiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer cynulleidfa y tu allan i Gymru, neu hysbysebion ar gyfer sianeli radio a theledu y tu allan i Gymru gynnwys rhywfaint o Gymraeg. Fel ymgais i hyrwyddo’r iaith fel rhan greiddiol o hunaniaeth a diwylliant y sir, ni ddylid cyhoeddi deunyddiau yn gyfan gwbl yn Saesneg yn unig.

4.18 Disgwylir i hysbysebion a chyhoeddusrwydd ar ran trydydd parti a fo'n ymddangos ar eiddo, tir neu adeilad y Cyngor ddilyn y canllawiau uchod. Lle bu cytundeb rhwng y Cyngor a pharti arall ar gyfer defnyddio eiddo, tir neu adeilad y Cyngor, bydd amod i'r perwyl hwn yn y cytundeb, yn cynnwys cyhoeddusrwydd cysylltiedig (e.e. posteri, hysbysebion).

## ADRAN 5 - GWASANAETHAU DIGIDOL – GWEFAN, APIAU A HUNANWASANAETH

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 56, 57, 58, 59, 60)

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob ap a system electronig a ddefnyddir ganddynt er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn gweithio yn gyfangwbl ddwyieithog.***

***Bydd y Cyngor yn ystyried datblygu apiau a systemau eu hunain lle bo'n bosib er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn gyfangwbl ddwyieithog, a bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw.***

***Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gyhoeddir yn electronig yn dilyn y canllawiau a nodir ar gyfer deunydd ysgrifenedig uchod.***

***Bydd modd symud o fersiynau Cymraeg a Saesneg tudalennau'r wefan yn rhwydd, a bydd datganiadau yn nodi yn glir bod fersiwn Cymraeg ar gael os bydd dogfennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân heb y gallu i doglo.***

5.1 Bydd unrhyw wefannau a ddatblygir gan y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, yn llywio'r defnyddiwr at y dudalen Gymraeg yn gyntaf lle bo modd, ac yn caniatáu symud yn hwylus rhwng y tudalennau cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg.

5.2 Bydd unrhyw gyfrifon ar wefannau cymdeithasol (megis *Facebook* a *Twitter*) yn dilyn y canllawiau sydd ar gael gan yr Uned Gyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf bob amser.

5.3 Bydd unrhyw ymateb i negeseuon neu sylwadau a dderbynir ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hysgrifennu yn yr un iaith, felly bydd pob sylw Cymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg.

5.4 Bydd unrhyw ffurflenni neu holiaduron sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor drwy ddull hunanwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r unigolion yn dewis iaith wrth gofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

5.5 Bydd unrhyw lythyrau neu ymateb i geisiadau drwy'r system hunanwasanaeth ar-lein yn cael eu hanfon yn yr iaith a ddewiswyd gan y defnyddiwr.

5.6 Bydd unrhyw beiriannau hunanwasanaeth a ddefnyddir mewn lleoliadau gwasanaeth yn gweithio yn gyfan gwbl ddwyieithog, ac os yn bosib yn cynnig y Gymraeg fel y dewis cyntaf/yr iaith ddi-ofyn.

5.7 Wrth gomisiynu neu brynu systemau TG newydd i'w defnyddio fel rhan o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau mynediad cyfartal i bawb, ac yn sicrhau nad oes angen cymryd camau ychwanegol i ddefnyddio'r fersiwn

Gymraeg, a fyddai yn golygu ein bod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.8 Os bydd unrhyw Adran neu wasanaeth o fewn y Cyngor yn comisiynu/prynu systemau newydd eu hunain i'w defnyddio fel rhan o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, disgwylir iddynt ymgynghori gyda'r gwasanaeth TG, tîm y We a'r Uned Iaith a Chraffu er mwyn sicrhau bod y systemau yn cyd-fynd gyda'r gofynion uchod ac yn cael eu profi yn ddigonol cyn eu defnyddio.

**ADRAN 6 -ARWYDDION**
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 61, 62, 63, 141, 142, 143)

6.1 Bydd pob arwydd a osodir mewn man cyhoeddus gan y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys arwyddion a osodir mewn adeiladau'r Cyngor a lleoliadau gwasanaeth a hefyd arwyddion cyhoeddus ar stryd/ffordd.

6.2 Bydd swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod yr iaith a'r ystyr yn glir ar unrhyw arwyddion, posteri, hysbysiadau gwybodaeth.

6.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw ddarparwyr neu gontractwyr trydydd parti yn defnyddio arwyddion dwyieithog hefyd sydd yn dilyn yr un egwyddor o ran amlygrwydd a chywirdeb y Gymraeg.

6.4 Bydd y Cyngor yn ymrwymo i godi proffil gweledol y Gymraeg a hybu defnydd cyhoeddus o enwau Cymraeg drwy ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion a osodir ar ei adeiladau a lleoliadau yn y sir, lle bynnag y bo hynny yn bosib. Bydd y Cyngor yn ystyried newidiadau priodol i arwyddion wrth iddynt gael eu hadnewyddu er mwyn defnyddio enwau Cymraeg yn unig. Mae hyn yn cynnwys defnyddio enw Cymraeg y Cyngor yn unig ar arwyddion newydd fydd yn cael eu gosod ac sydd yn cynnwys logo'r Cyngor a defnyddio enwau llefydd Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd a ffyrdd newydd.

**ADRAN 7 - DERBYNFEYDD**
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 64, 67, 68,69)

| EGWYDDORION CYFFREDINOL |
|---|
| ***Dilynir egwyddor y cynnig rhagweithiol a bydd pob aelod o staff rheng flaen ar dderbynfeydd y Cyngor yn cychwyn y sgwrs yn y Gymraeg.*** |

7.1 Bydd modd i'r cyhoedd gael gwasanaeth dwyieithog llawn ym mhob un o dderbynfeydd cyhoeddus y Cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd pob cynghorydd cwsmer a chroesawydd mewn derbynfeydd llyfrgelloedd, ysgolion ac ati yn gallu cyfathrebu yn ddwyieithog.

7.2 Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn nerbynfeydd ac unrhyw fannau gwasanaeth cyhoeddus y Cyngor fydd yn nodi'n glir bod modd cael gwasanaeth Cymraeg er mwyn annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac er mwyn sicrhau bod dewis iaith yn cael ei nodi a'i barchu.

7.3 Anogir, ble bo'n briodol, i staff derbynfeydd a mannau gwasanaeth cyhoeddus wisgo bathodynnau neu gortynnau gwddf "Cymraeg"/Iaith Gwaith fydd yn galluogi'r cyhoedd i wybod lle mae siaradwyr neu ddysgwyr Cymraeg all roi gwasanaeth cyfrwng Cymraeg iddynt.

## ADRAN 8 - GRANTIAU A CHEFNOGAETH ARIANNOL

(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 71, 72, 72A, 73, 75)

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Mae gan y Cyngor is-bolisi i'r Polisi Iaith hwn sydd yn gosod y disgwyliadau o ran dyfarnu grantiau, ac sydd yn ateb gofyn Safon 94. Bydd disgwyl i staff ddilyn yr is-bolisi hwnw wrth ystyried unrhyw drefniadau lle mae grantiau neu gymorth ariannol yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd.***

8.1 Defnyddir unrhyw nawdd neu grant gan y Cyngor fel un arf cyhoeddus ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn lleol. Gall hyn fod drwy gynyddu defnydd llafar, dydd i ddydd, o'r Gymraeg neu drwy hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol.

8.2 Bydd amodau am ddefnydd iaith yn cael eu gosod o fewn unrhyw gytundebau grant, yn unol â natur y grant a'r gweithgarwch sydd yn cael ei ariannu.

8.3 Bydd y Cyngor yn disgwyl i sefydliadau, mudiadau, cyrff ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned fusnes yn lleol wneud hynny'n ddwyieithog, ac yn unol â gofynion y Polisi hwn a Safonau'r Gymraeg.

8.4 Bydd y Cyngor yn disgwyl i fusnesau sydd yn derbyn grantiau neu gymorth ariannol fod yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg, ei defnyddio yn weledol yn y busnes, ac i gynnig cyfleoedd gwaith lle mae sgiliau Cymraeg yn cael eu cydnabod.

8.6 Bydd pob gohebiaeth yn ymwneud â dyrannu grantiau neu dendrau gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.

8.7 Bydd yr holl brosesau sydd yn ymwneud efo dyfarnu grantiau a chymorth ariannol yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, a bydd posib i unrhyw un gael cyfarfod neu gyfweliad yng nghyd-destun grantiau neu gymorth ariannol yn Gymraeg. Cyfrifoldeb swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os bydd angen.

**ADRAN 9 – PROSESAU CAFFAEL A THENDRO (CYD-DDARPARU, COMISIYNU AC ALLANOLI GWASANAETHAU)**
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 76, 77, 77A, 78, 80)

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau, yn ogystal ag allanoli gwasanaethau, yn cael eu defnyddio fwyfwy gan y Cyngor ac yn allweddol i'r dyfodol. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cyngor yn gwarchod a sicrhau anghenion trigolion y Sir o safbwynt derbyn gwasanaethau dwyieithog.***

***Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda'n cyd-ddarparwyr ac i gydweithio tuag at well darpariaeth ddwyieithog ar draws yr holl wasanaethau.***

***Bydd sicrhau hawl unigolion i wasanaethau Cymraeg yn rhan greiddiol o unrhyw waith i allanoli neu osod cytundeb ar gfyer gwasanaethau.***

***Dilynir canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar osod contractau -=*** c-gosod-contractau-gwasanaethau-cyhoeddus.pdf (comisiynyddygymraeg.cymru)

9.1 Bydd unrhyw gytundebau darparu yn cyfeirio at y polisi hwn ac yn cynnwys cymalau fydd yn nodi'n glir y gofynion a'r disgwyliadau ar ddarparwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Polisi hwn.

9.2 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

9.3 Os bydd gwasanaeth yn cael ei allanoli, neu gytundeb/tendr yn cael ei roi i ddarparu gwasanaeth mewn adeilad sydd yn eiddo i'r Cyngor bydd disgwyl iddynt weithredu i'r un safonau a osodir yn y Polisi hwn, a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y busnes neu wasanaeth yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Os yn briodol, bydd y Cyngor yn gofyn i'r darparwr lunio polisi iaith annibynnol sydd yn adlewyrchu union natur y gwaith a gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig.

9.4 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol, ac asiantaethau eraill. Mewn unrhyw sefyllfa o gydweithio, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y sefydliadau oll yn gweithredu yn unol ag arweiniad Comisiynydd y Gymraeg (Canllaw Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus), ac y dylid cynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'r Safonau uchaf perthnasol mewn unrhyw sefyllfa o gyd-ddarparu. Dylid sicrhau felly nad yw unrhyw sefyllfa o gyd-ddarparu neu osod cytundeb i ddarparu gwasanaethau yn allanol yn mynd yn groes i

ofynion Safonau'r Gymraeg Cyngor Gwynedd, ac yn rhoi'r Cyngor mewn peryg o fethu â chydymffurfio.

Bydd y Cyngor hefyd yn cymryd y camau canlynol:

i. Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn weithredol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg.

ii. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth, ac mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbwn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Polisi Iaith a bydd y Cyngor yn annog y partïon eraill i weithredu yn yr un modd.

iii. Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o gonsortia/cyd-bwyllgor, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith.  Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'i Bolisi Iaith.

iv. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Polisïau Iaith, neu'r modd y maent yn gweithredu yn ddwyieithog.  Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

9.5 Gall y Cyngor gynorthwyo'r uchod, e.e. trwy gynnig cyngor ynglŷn â dwyieithrwydd a llogi offer cyfieithu.

## ADRAN 10 - LLUNIO POLISI

(Safonau Llunio Polisi 88, 89, 90, 91, 92, 93, 95, 96, 97)

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

***Mae disgwyl i adrannau gynnal asesiad o effaith unrhyw bolisi neu weithdrefn newydd, neu newid i bolisi neu weithdrefn, sy'n cwmpasu materion ieithyddol, cydraddoldeb, hawliau dynol ac economaidd-gymdeithasol.  Mae hyn yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'r holl ddyletswyddau yn y meysydd hyn.***

***Bydd y Cyngor yn scirhau bod barn y cyhoedd yn cael ei gasglu wrth ymgynghori am effaith posib unryw gynlluniau neu bednerfyniadau ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned ac ar hawliau siaradwyr Cymraeg.***

***Ceisir dilyn y Cyngor a nodir gan y Comisiynydd yn y ddogfen:***
*Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol*

**Asesu Effaith**

10.1 Bydd cyfrifoldeb ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau polisi, a hynny wrth lunio polisi newydd, neu wrth adolygu neu addasu polisi cyfredol.

10.2 Bydd cyfrifoldeb ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod unrhyw gynlluniau, menter neu bolisïau newydd yn cyd-fynd gydag ymrwymiadau ehangach y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a'r nod tymor hir o weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a bod pob cyfle yn cael ei gymryd i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir.

10.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion a osodir yn Safonau'r Gymraeg o safbwynt asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg ac ar gyfleoedd i'w defnyddio o fewn y gymuned. Bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei gyflawni fel rhan o ddyletswydd ehangach i asesu effaith polisïau a chynlluniau ar lesiant, dan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Cynllun Llesiant Lleol, drwy ddefnyddio fframwaith asesu effaith integredig sydd wedi ei datblygu gan y Cyngor i gwmpasu'r gofynio ym meysydd iaith, cydraddoldeb, ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn cael ei gyflwyno i Aelodau Etholedig wrth gyflwyno eitemau i Gabinet y Cyngor.

10.4 Bydd arweiniad pellach i'w gael gan yr Ymgynghorwyr Iaith am yr union amgylchiadau lle y dylid cynnal asesiad iaith, ac yn benodol felly unrhyw amgylchiadau lle nad yw'r cynllun neu benderfyniad yn gorfod mynd o flaen Cabinet y Cyngor, ac felly ddim yn gofyn am yr asesiad effaith integredig, ond bod y penderfyniad neu gynllun hwnnw yn dal i ffitio o fewn diffiniad Comisiynydd y Gymraeg o benderfyniad polisi (Gweler Cod Ymarfer y Safonau) ac felly angen asesiad effaith ieithyddol ar wahan.

10.5 Bydd disgwyl i swyddogion y Cyngor gynnal asesiadau effaith amserol a thrylwyr o unrhyw bolisi neu gynllun strategol newydd wrth gynllunio a datblygu'r polisi neu gynllun strategol hwnnw er mwyn ystyried pa effaith, os o gwbl, y bydd y cynlluniau yn eu cael ar ffyniant yr iaith yng Ngwynedd, gan gynnwys unrhyw effaith ar;

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,
- niferoedd neu ganran siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau,
- gwasanaethau neu adnoddau cymunedol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl yn y cymunedau hynny;
- amcanion Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd a'r nod tymor hir o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

**Ymgynghori ar benderfyniadau:**

10.6 Bydd gwasanaethau yn sicrhau bod unrhyw waith ymchwil neu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir yng nghyswllt llunio polisi neu gynlluniau strategol newydd yn rhoi sylw teg i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau, a bod yr ymchwil neu ymgynghoriadau hynny yn cyfrannu at y broses o asesu effaith.

10.7 Bydd angen i swyddogion sicrhau bod cwestiynau penodol yn cael eu gofyn mewn unrhyw ymgysylltu/ymgynghoriad cyhoeddus am bolisïau neu gynlluniau er mwyn casglu barn y cyhoedd ac ystyried unrhyw effeithiau posib neu debygol y gallai'r newid ei gael ar yr iaith a'i ddefnydd yn y gymuned. Bydd enghreifftiau o gwestiynau i'w cynnwys mewn ymgynghoriadau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor a thrwy gysylltu gyda'r Ymgynghorwyr Iaith.

**Addasu neu newid polisïau neu gynlluniau:**

10.8 Bydd disgwyl i swyddogion ystyried unrhyw newidiadau neu addasiadau priodol y gellir eu gwneud i bolisi neu gynllun os bydd unrhyw effeithiau negyddol posib yn cael eu hadnabod, neu os bydd cyfleoedd yn cael eu hadnabod i wneud newidiadau fyddai yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, wrth asesu effaith neu ymgynghori/ymgysylltu.

**Monitro effaith**

10.9 Pan fo’n briodol, bydd y Cyngor yn sefydlu trefniadau monitro ar gyfer cynlluniau strategol, er mwyn gallu mesur yr effaith, a chasglu tystiolaeth am y cyswllt rhwng y cynlluniau ac amcanion hybu iaith y Cyngor.

## ADRAN 11 - GWEITHREDIAD MEWNOL Y CYNGOR

(Safonau Gweithredu 98, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 112A, 113, 115, 116, 116A, 117, 119, 120, 121, 124, 126, 128, 129, 141, 142, 143, 144)

### EGWYDDORION CYFFREDINOL

***Mae'r Cyngor yn gweithredu yn fewnol drwy gfyrwng y Gymraeg yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod cyfarfodydd, a chyfathrebu mewnol yn digwydd yn Gymraeg. Bydd y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser mewn unrhyw ddatganiadau llafar, bwletinau gwybodaeth, posteri ac arwyddion.***

***Mae holl wasanaethau mewnol ar gyfer staff, gan gynnwys polisiau gwaith a'r gwasanaeth mewnrwyd a hunanwasnaeth staff, yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.***

***Bydd disgwyl i bob aelod o staff ddefnyddio fersiynau Cymraeg o feddlwedd cyfrifiadurol.***

***Bydd disgwyl i bob aelod o staff defnyddio llofnod ebost sydd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr.***

***Bydd unrhyw bolisïau perthnasol sydd yn ymwneud efo hawliau staff, prosesau disgyblu a chwynion, yn amlygu hawliau'r unigolion dan ofynion y Safonau. Bydd y Cyngor yn parchu hawl aelodau staff i arddel dewis iaith, ac yn darparu gwybodaeth bersonol yn yr iaith o'u dewis.***

**Cyfathrebu a chyfarfodydd mewnol – gwaith dydd i ddydd y Cyngor**

11.1 Disgwylir bod cyfarfodydd mewnol y Cyngor – gan gynnwys cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd rhwng swyddogion i drafod cydweithio – yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

11.2 Disgwylir bod y rhan fwyaf o gyfathrebu mewnol yn Gymraeg, a bod adroddiadau, rhaglenni gwaith ac ati, yn cael eu llunio yn Gymraeg yn gyntaf.

11.3 Os bydd angen rhannu dogfennau gyda chydweithwyr (mewnol neu allanol) nad ydynt yn gallu'r Gymraeg, mae gwasanaeth cyfieithu ar gael.

**Mewnrwyd staff**

11.4 Bydd mewnrwyd y Cyngor yn uniaith Gymraeg, a bwletinau gwybodaeth staff ar e-bost yn Gymraeg. Darperir fersiwn Saesneg o'r bwletinau gwybodaeth a'u cynnwys mewn atodiad i'r e-bost.

11.5 Bydd gwybodaeth ar y fewnrwyd yn Gymraeg yn bennaf, gyda gwybodaeth yn cael ei rannu yn Saesneg yn ôl yr angen.

**Hunanwasanaeth a materion cyflogaeth staff**

11.6 Bydd unrhyw wybodaeth yn ymwneud â materion cyflogaeth ar Hunanwasanaeth Staff, ac unrhyw bolisïau neu ganllawiau yn ymwneud â materion allweddol megis Iechyd a Diogelwch ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg.

11.7 Bydd modd i bob aelod o staff gyflwyno cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg, a dylid delio ag unrhyw achos yn newis iaith yr aelod staff.

11.8 Bydd gan bob aelod o staff hawl i ymdrin ag unrhyw faterion disgyblu neu unrhyw faterion eraill sy’n ymwneud ag amodau gwaith neu berfformiad drwy gyfrwng eu dewis iaith, yn y Gymraeg neu’r Saesneg.

**Hyfforddiant**

11.9 Bydd **POB** hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg, ac ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.

11.10 Dylid ystyried defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn sesiynau hyfforddiant, pan fo hynny yn ymarferol bosib, er mwyn galluogi staff sydd yn ddi-hyder eu Cymraeg i gymryd rhan yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal fel y brif iaith weinyddol fewnol, ac er mwyn rhoi cyfleoedd anffurfiol, cefnogol i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

**Cefnogi Staff**

11.11 Er mwyn galluogi i’r Cyngor weithredu yn unol â'r polisi hwn, bydd yn ofynnol i staff y Cyngor allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a’r Saesneg hyd at safon sy'n briodol ac er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn.

11.12 Mae'r Cyngor yn dymuno cydweithio gyda'i staff er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno a rhoddir pob cefnogaeth ac anogaeth posib i weithwyr ddatblygu eu hyder a’u gallu yn y Gymraeg. Yn yr un modd mae'r Cyngor yn disgwyl i'r staff fod yn ymroddgar ac i fod yn barod i gydweithio i gyrraedd y nod hwnnw.

11.13 Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel ac yn paratoi cyllid ar gyfer hynny.

11.14 Cyfrifoldeb Rheolwyr llinell fydd annog staff i fynychu hyfforddiant ac i asesu’r angen am hyfforddiant gloywi neu wella sgiliau o fewn eu timau.

11.15 Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith hefyd yn cael ei gynnig i’r holl weithlu, fydd yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg a hanes yr iaith.

11.16 Bydd cyfle yn ogystal i unrhyw aelod etholedig sy’n dymuno gwella eu sgiliau ieithyddol ymuno â hyfforddiant iaith y Cyngor

11.17 Cyflwynir Gwobr Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol i ddysgwyr er mwyn cydnabod ymdrech staff sy'n gwneud cynnydd arbennig yn y deuddeg mis blaenorol. Mae'r Wobr hefyd yn cydnabod gwaith a chyfraniad Mentoriaid iaith.

**ADRAN 12- HYSBYSEBU SWYDDI A'R BROSES RECRIWTIO**
(Safonau Gweithredu 136, 136A, 137, 137A, 137B, 140)

| |
|---|
| **EGWYDDORION CYFFREDINOL** |
| ***Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor.*** |
| ***Rhaid i ofynion ieithyddol pob swydd gael eu hasesu yn erbyn y fframwaith iaith.*** |
| ***Bydd cyfweliadau ar gyfer swyddi yn cael eu cynnal yn Gymraeg.*** |
| ***Rhaid cynnal asesiad o sgiliau iaith pob aelod o staff, naill ai wrth iddynt gael eu penodi, neu fel rhan o drefniadau anwytho.*** |

**Cyffredinol / Pennu gofynion ieithyddol**

12.1 Mae gan y Cyngor Bolisi Recriwtio mewnol, sydd yn rhoi arweiniad pellach i reolwyr ar y broses i'w dilyn wrth benodi, a'r gofynion ieithyddol i'w hystyried ar wahanol gamau. Bydd posib cael cyngor gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol neu'r Ymgynghorwyr Iaith hefyd am sut i ystyried y Gymraeg os bydd unrhyw drefn wahanol i'r arfer yn cael ei defnyddio wrth benodi.

12.2 Dylai'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol hanfodol ar gyfer pob swydd, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd – gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.

12.3 Bydd y Rheolwr yn pennu'r union lefel o allu a sgiliau cyfathrebu fydd eu hangen ar gyfer cyflawni **holl** ofynion y swydd drwy ddefnyddio Fframwaith Iaith y Cyngor.

12.4 Pan fydd swydd yn dod yn wag, bydd rhaid i reolwyr sicrhau bod y gofynion iaith yn gyfredol ac yn addas i ofynion y swydd.

12.5 Ar gyfer swyddi lle mae gofynion iaith yn rhan gwbl greiddiol o gyflawni dyletswyddau'r swydd (e.e. mewn swyddi rheng flaen lle bydd angen delio gyda'r cyhoedd), bydd gofyn i unigolyn fod yn cyrraedd y lefel ofynnol o ddyddiad cychwyn eu cyflogaeth.

12.6 Mewn amgylchiadau eraill (e.e. os ydym wedi methu penodi rhywun sydd â'r holl sgiliau gofynnol ar yr ymgais gyntaf) gall fod yn addas penodi unigolion sydd â'r sgiliau eraill perthnasol ac sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu'r sgiliau ieithyddol dros amser. Yn yr achosion hynny, bydd y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

yn gallu darparu cymorth a threfnu hyfforddiant pwrpasol, a bydd rhaglen ddatblygu addas yn cael ei llunio mewn cytundeb rhwng y Cyngor, fel y cyflogwr, y rheolwr, a deilydd y swydd er mwyn pontio'r bwlch rhwng sgiliau'r unigolyn a'r sgiliau sydd yn ofynnol ar gyfer y swydd.

12.7 Cyfrifoldeb y rheolwr sydd yn penodi yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad pan fo'n briodol a'u bod yn mynychu unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei adnabod ac yn datblygu eu sgiliau.

**Hysbysebu**

12.8 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddwyieithog, ac eithrio swyddi dysgu sydd yn cael eu hysbysebu yn uniaith Gymraeg.

12.9 Bydd pob hysbyseb swydd yn cynnwys brawddeg sydd yn tynnu sylw at weinyddiaeth fewnol cyfrwng Cymraeg y Cyngor a'r angen am sgiliau iaith ymysg y gweithwyr.

*"Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ei holl wasanaethau yn ddwyieithog. Bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol sy'n cael ei nodi yn y Manylion Person."*

12.10 Anogir pob ymgeisydd i gyflwyno ffurflenni cais yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog, fel ffordd o arddangos dealltwriaeth o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Bydd brawddeg yn cael ei chynnwys ar bob hysbyseb swydd i'r perwyl hwnnw:

"Rydym yn annog pob ymgeisydd am swydd gyda'r Cyngor i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.
*(Bydd ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno yn uniaith Gymraeg neu Saesneg yn cael eu trin yn gwbl gyfartal, ond gofynnir i'r ymgeisydd ystyried yn ofalus beth yw gofynion iaith y swydd a'r sefydliad ac a fyddai cyflwyno cais yn uniaith Gymraeg yn fwy addas)."*

12.11 Os na fydd yn bosib penodi rhywun gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar ôl hysbysebu unwaith, gellir ystyried derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion iaith yn syth, ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu.

**NI FYDD DYNODIAD IAITH Y SWYDD EI HUN YN CAEL EI NEWID O GWBL WRTH AIL-HYSBYSEBU**.

12.12 Mewn amgylchiadau fel hyn, bydd y geiriad sydd yn ymddangos yn yr hysbyseb yn cael ei newid i'r canlynol:

*Rydym yn awyddus i ystyried ceisiadau gan unigolion sydd, o bosib, yn is na lefel iaith y swydd ar hyn o bryd, ond bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i ddysgu neu ddatblygu i lefel iaith y swydd o fewn amserlen resymol. Bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gyflawni hynny.*

**Saesneg:**

*We are eager to consider applications from individuals who, possibly, do not currently reach the language level of the post, but the successful applicant would be required to commit to either learn, or develop language skills to the required level within a reasonable timescale. The Council will provide support to achieve this.*

12.13 Os bydd swydd yn cael ei hysbysebu mewn dull gwahanol i'r arfer a heb fod yn defnyddio'r templedi swydd ddisgrifiad a manylion person arferol – er enghraifft drwy greu Pecyn Recriwtio neu hysbysebu secondiad mewnol - rhaid sicrhau bod y wybodaeth am sgiliau allweddol yn dal i gael ei gynnwys rhywle o fewn y pecyn. Gellir cael arweiniad pellach gan swyddogion Adnoddau Dynol a'r Ymgynghorwyr Iaith.

**Penodi / Cyfweliadau**

12.14 Cynhelir pob cyfweliad yn y Gymraeg. Bydd y ddogfennaeth sydd yn gwahodd unigolion i gyfweliad yn nodi yn glir mai yn y Gymraeg y bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal a bod angen cysylltu gyda'r swyddog priodol petai angen gwneud trefniadau amgen.

12.15 Os bydd aelod o'r panel cyfweld yn digwydd bod yn ddi-Gymraeg (e.e. os bydd angen cynrychiolydd allanol am ryw reswm) ni fydd hynny yn effeithio ar hawl yr unigolyn i gyfweliad Cymraeg a bydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw anghenion cyfieithu.

## <u>ADRAN 13 - MATERION ERAILL – ATEBOLRWYDD</u>

**Staff**

13.1 Disgwylir i bob aelod o staff sydd yn gyflogedig gan y Cyngor ddilyn y polisi hwn. Ar yr un pryd, cydnabyddir nad yw rhai aelodau staff ac adrannau yn atebol i Safonau'r Gymraeg am wahanol resymau. Mae hyn yn cynnwys:

- Staff GWE, yr Asiantaeth Cefnffyrdd, a'r Bwrdd Uchelgais, sydd yn gweithredu led braich a dan statws cyd-bwyllgor (ac felly ddim yn atebol i'r Safonau Iaith),
- staff dysgu ysgolion, sydd yn cael eu cyflogi gan yr ysgolion a'r cyrff llywodraethu yn uniongyrchol. Mae polisi iaith wedi ei ddatblygu ar gyfer ei ddefnyddio gan ysgolion, gyda chyrff llywodraethu yn gyfrifol am fabwysiadu'r polisi a monitro ei weithrediad.
- Staff etholiadau, sydd yn dod dan gyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau, sydd yn swydd annibynnol o'r Cyngor.

13.2 Mae'r Adran Addysg ar Uned Iaith a Chraffu wedi paratoi templed o bolisi iaith i'w ddefnyddio gan ysgolion, sydd yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r ymrwymiadau cyffredinol yn y polisi hwn i weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod hawl y cyhoedd i wasanaethau Cymraeg yn cael ei barchu bob amser. Mae'r polisi hwnnw wedi ei rannu gyda holl gyrff llywodraethu ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, gyda'r gobaith y byddant yn eu mabwysiadu a'u gweithredu.

**Gwirfoddolwyr**

13.3 Os bydd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio i gyflenwi gwasanaethau neu weithgareddau ar ran y Cyngor, dylid sicrhau eu bod hwythau yn ymwybodol o'r angen i ddarparu yn ddwyieithog a recriwtio rhai a all gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg ble bo'n bosib. Os oes gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, rhaid i swyddog neu reolwr y Cyngor sicrhau nad yw hyn yn amharu ar allu'r gwasanaeth i gynnig y gweithgaredd yn ddwyieithog.

13.4 Os bydd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio ar gyfer y tymor hir (mwy na gweithgaredd unigol) dylid sicrhau bod elfen o ymwybyddiaeth neu fagu hyder yn y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn unrhyw hyfforddiant rôl.

**Aelodau Etholedig**

13.5 Mae aelodau etholedig yn rhan o weithdrefnau mewnol y Cyngor, ond nid ydynt yn atebol i'r Safonau fel staff cyflogedig y Cyngor.

13.6 Disgwylir iddynt serch hynny arddel a pharchu egwyddorion y Cyngor o ran y Gymraeg ac i fod yn ymwybodol o'r gofynion ar y gwasanaethau a staff y Cyngor.

13.7 Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wyneb yn wyneb ac ar-lein i'r holl aelodau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ymrwymiadau'r Cyngor dan Fesur y Gymraeg a fframweithiau a deddfwriaethau perthnasol eraill megis y Ddeddf Llesiant, Deddf Cydraddoldeb a fframwaith Mwy na Geiriau.

13.8 Bydd gan yr Aelodau Etholedig sydd yn eistedd ar Bwyllgor Iaith y Cyngor rôl i oruchwylio a monitro gweithrediad y Safonau a'r Polisi. Bydd yr Uned Iaith a Chraffu ac Adrannau'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd fydd yn eu diweddaru ar faterion perthnasol.

**<u>ADRAN 14 - MONITRO AC ADRODD</u>**
(Safonau Cadw Cofnodion 147, 148, 149, 150, 151, 152, 153)

**Monitro**

14.1 Bydd y Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'r Safonau Iaith i Gomisiynydd y Gymraeg.

14.2 Bydd proses hunanasesu fewnol yn cael ei gweithredu, gydag adrannau yn monitro cydymffurfiaeth ac adrodd ar unrhyw broblemau neu rwystrau i'r Uned Iaith a Chraffu.

14.3 Bydd camau gweithredu a rhaglen waith ddatblygol yn cael ei llunio ar sail unrhyw fylchau a gaiff eu hadnabod er mwyn gweithio yn gyson tuag at wella perfformiad.

**Cwynion iaith**

14.4 Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw gŵyn yn erbyn gweinyddiad ein Polisi Iaith fel

tystiolaeth ynglŷn â'n perfformiad ac fel cyfle i wella.

14.5 Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor. Yr Uned Iaith a Chraffu sydd â chyfrifoldeb dros fonitro cwynion iaith, ac adroddir arnynt yn rheolaidd i'r Pwyllgor Iaith. Bydd yr Uned yn dilyn trefn o adrodd yn ffurfiol ar y cwynion hynny sydd wedi eu hateb yn llawn, ac yn anffurfiol am gwynion sydd yn dal i gael eu datrys. Mae esboniad pellach ar y broses y byddwn yn ei dilyn, a rôl y Comisiynydd, wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith (llyw.cymru)

14.6 Bydd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Polisi Iaith hwn neu gydymffurfiad y Cyngor gyda Safonau'r Gymraeg (2015) yn cael eu hadrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

**Adolygu**

14.7 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn rheolaidd, a'i addasu yn ôl yr angen.